



At: Aelodau'r Cabinet

19 Gorffennaf 2023

Annwyl Aelod,

Y CABINET – 20 GORFFENNAF 2023

Atodaf adroddiad brys yng nghyswllt yr eitem isod:-

3. MATERION BRYD – TALIADAU I DEULUOEDD SY'N GYMWYS 2 - 4 AM BRYDAU YSGOL AM DDIM DROS WYLIAU'R HAF 2023

Yn gywir,

Rhodri Jones
Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth

Eitem 3

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	20 Gorffennaf 2023
Aelod Cabinet:	Cyng. Beca Brown
Swyddog Cyswilt:	Garem Jackson – Pennaeth Addysg
Teitl yr Eitem:	Taliadau i deuluoedd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros wyliau'r Haf 2023

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru mewn llythyr dyddiedig 28 Mehefin 2023 na fyddai'r cynllun 'Darpariaeth Prydau Ysgol am ddim yn ystod y Gwyliau' yn cael ei ymestyn i wyliau'r Haf 2023, bod Cyngor Gwynedd yn ariannu'r gost o ddarparu'r cynllun i deuluoedd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros wyliau'r haf 2023. Dylid pwysleisio bod y penderfyniad a geisir yn berthnasol i'r gwyliau hwn yn unig, a chyda hynny mewn ymateb i'r ffaith bod penderfyniad Llywodraeth Cymru wedi bod yn hwyr yn y dydd ac nad yw'n bosibl i deuluoedd flaengynllunio yn briodol o'r herwydd.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae'r teuluoedd perthnasol yng Ngwynedd, ac yn wir dros Gymru gyfan wedi arfer cyllidebu ar gyfer prydau i'w plant yn sgil ei fod wedi ei ariannu ers peth amser gan Lywodraeth Cymru. O'r herwydd teimla'r Adran Addysg na fyddai'n briodol iddynt ddiodef yn gyllidol heb rybudd teg a hithau mor agos at gychwyn gwyliau'r haf.

3 CYFLWYNIAD

Cyflwynwyd darpariaeth wyliau i ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y pandemig fel ymyrraeth argyfwng gan Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun hwn wedi parhau tan hanner tymor Mai 2023. Er bod y Llywodraeth wedi sôn ym mis Mawrth 2023 mai hyd at ddiwedd hanner tymor mis Mai yn unig y byddai'r estyniad yn parhau, ni ddaeth y penderfyniad terfynol tan 29 Mehefin 2023 pan gawsom lythyr drwy e bost gan Gyfarwyddwr y Gymraeg ac Addysg y Llywodraeth dyddiedig 28 Mehefin 2023.

Mae'r Adran Addysg wedi hysbysu rhieni o benderfyniad Llywodraeth Cymru yn unol â'r cais gafwyd yn y llythyr.

4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- Mae darparu cinio ysgol am ddim i'r sector gynradd yn flaenoriaeth Cynllun Strategol gan yr Adran addysg ac rydym yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn cynradd yn cael cynnig cinio am ddim yn ein hysgolion erbyn Medi 2023.
- Mae'r cynllun i ddarparu taliadau dros wyliau'r ysgol i deuluoedd sy'n gymwys am ginio ysgol am ddim wedi ei ddarparu gan yr Adran Addysg ers iddo ddod i rym ddechrau'r pandemig.
- Ers Ebrill 2020, mae oddeutu £3.32m o daliadau wedi ei wneud i reini/gwarchodwyr, ac wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn gyfwerth ag oddeutu 852,000 o ddiwrnodau, sy'n cynnwys cyfnodau gwyliau ysgol, cyfnodau ble mae ysgolion wedi bod ar gau oherwydd Covid, cyfnodau lle mae blynyddoedd penodol o'r ysgol wedi bod ar gau oherwydd Covid, a chyfnodau lle bu angen i'r disgyblion hunain ynysu.
- Erbyn heddiw, mae oddeutu 84% o rieni/gwarchodwyr sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim wedi cofrestru i dderbyn taliad yn ystod gwyliau ysgol.
- Mae'r niferoedd yn newid yn gyson, ond ar sail y ffigyrau diweddaraf sydd gennym, sef gwyliau'r Sulgwyn 2023, gwnaethpwyd taliad o £3.90 y diwrnod i rieni/gwarchodwyr oddeutu 2,700 o ddisgyblion.
- Felly ar sail gwyliau swyddogol yr Haf, fel a nodir ar wefan y Cyngor sef 21 Gorffennaf – 31 Awst (30 diwrnod) bydd cyfanswm y gost am y cyfnod i gyd yn oddeutu £316,000.

6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet bydd yr Adran yn mynd ati i brosesu'r taliadau hyn. Dylid nodi, gyda'r ffaith ein bod ar drothwy gwyliau'r haf a bod nifer o'r staff fyddai'n gweithio ar weinyddu hyn eisoes wedi trefnu gwyliau nid oes gwarant y gellid prosesu'r taliadau erbyn cyfnod cynnar y gwyliau. Fodd bynnag, pan mae'r gwaith gweinyddu wedi ei wneud gellir trefnu i wneud unrhyw daliadau sydd yn ddyledus yn olsyllol i ddechrau y gwyliau.

7 SYLWADAU SWYDDOGION STATUDOL

Prif Swyddog Cyllid

Mae swyddogion o'r Adran Gyllid wedi cynorthwyo awdur yr adroddiad gyda'r wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys a gallaf gadarnhau ei gywirdeb. Rwyf yn fodlon byddai modd ariannu'r trefniant yma trwy'r ddefnydd o reserf a glustnodwyd a bydd trefniadau priodol yn cael eu gwneud er mwyn gwireddu'r cynllun os mai dyna fydd penderfyniad y Cabinet. Wrth gwrs, fel gydag unrhyw ddefnydd o'r fath, ni fydd yr arian hwn ar gael wedyn ar gyfer defnydd arall yn y dyfodol.

Swyddog Monitro

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

